

Atebion

Sarn y Cawr, Gogledd Iwerddon

Tasg 1

A. Ymarfer amlddewis

1. Ble mae Sarn y Cawr?
 - a. Ar arfordir gorllewinol Gogledd Iwerddon
 - b. Ar arfordir gogleddol Gogledd Iwerddon**
 - c. Ar arfordir dwyreiniol Gogledd Iwerddon

2. Sawl mil o golofnau o falast sydd yno?
 - a. Tua chwe deg mil
 - b. Tua phum deg mil
 - c. Tua phedwar deg mil**

3. Pam ffurfiodd y colofnau?
 - a. Ar ôl ffrwydrad folcanig, oerodd lafa a hollti.**
 - b. Ar ôl i ddaeargryn ddigwydd, oerodd lafa a hollti.
 - c. Ar ôl i ddŵr lifo dros bob man, oerodd lafa a hollti.

4. Sawl ochr sydd gan y rhan fwyaf o'r colofnau?
 - a. 7
 - b. 4
 - c. 6**

5. Beth arall allwch chi ei wneud os ewch chi i ymweld â Sarn y Cawr?
 - a. Mynd ar weiren sip
 - b. Nofio i weld y colofnau
 - c. Cael paned o goffi**

B. Ymarfer cysylltu

Cysylltwch y geiriau sy'n perthyn i'w gilydd yn y ddwy golofn:

1.	gwraig Ffionn	Cafodd hi syniad i wisgo Fionn fel baban.
2.	hecsagon	Rhywbeth sydd â chwe ochr.
3.	Ynys Staffa	Mae colofnau basalt yma hefyd.
4.	sarn	Adeiladodd Fionn un o'r rhain.
5.	colofnau basalt	Ffurfion nhw ar ôl ffrwydriad folcanig.

C. Ymarfer trefnu

Rhowch y digwyddiadau hyn yn chwedl Sarn y Cawr yn eu trefn o 1 i 7. Mae'r un cyntaf wedi'i wneud i chi.

Gwelodd Fionn fod Benandonner yn llawer mwy nag ef.	3
Gwisgodd gwraig Fionn ef fel baban.	5
Rhedodd Benandonner yn ôl i'r Alban a chwalu'r sarn ar ei ôl.	7
Penderfynodd cawr o'r enw Fionn mac Cumhaill adeiladu sarn.	1
Rhedodd Fionn yn ôl i'r arfordir.	4
Gwelodd Benandonner y baban a meddwl rhaid bod ei dad yn anferth.	6
Adeiladodd Benandonner sarn hefyd.	2

CH. Ymarferion geirfa

1. chwalu

2. Tanlinellwch y gair am 'mawr iawn, iawn' yn y paragraff hwn:

Gwelodd Fionn fod Benandonner yn llawer mwy nag ef, felly rhedodd yn ôl i'r arfordir. Doedd e ddim eisiau ymladd ag e. Cafodd gwraig Fionn syniad. Gwisgodd hi Fionn fel baban. Pan welodd Benandonner Fionn, roedd e'n meddwl – os yw'r baban mor fawr â hyn, rhaid bod ei dad yn **anferth!**

Gair arall: enfawr